OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 739 (Cy.67)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau Tramgwyddau Amgylcheddol (Cosbau Penodedig) (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007

Wedi'u gwneud - -	*06 Mawrth 2007*
Yn dod i rym - -	*15 Mawrth 2007*

Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), o ran Cymru, yw'r person priodol fel y'i diffinnir—

(a) yn adran 11(1) o Ddeddf Gwaredu Sbwriel (Amwynder) 1978(**1**), at ddibenion arfer y pwerau a roddir gan adran 2A(11) o'r Ddeddf honno;

(b) yn adran 9(1) o Ddeddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989(**2**), at ddibenion arfer y pwerau a roddir gan adran 5B(12) o'r Ddeddf honno;

(c) yn adran 29(1A)(b) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**3**), at ddibenion arfer y pwerau a roddir gan adrannau 34A(12) a 47ZB(4) a (5) o'r Ddeddf honno;

(ch) yn adran 98(1A)(b) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**4**), at ddibenion arfer y pwerau a roddir gan adrannau 88(11) a 97A(1), (2) a (4) o'r Ddeddf honno;

(d) yn adran 11(2A)(b) o Ddeddf Sŵ n 1996(**5**), at ddibenion arfer y pwerau a roddir gan adran 8A(4) a (5) o'r Ddeddf honno;

(dd) yn adran 47(1) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003(**6**), at ddibenion arfer y pwerau a roddir gan adrannau 43A(4) a (5) a 47(4) o'r Ddeddf honno;

(e) yn adran 9(2) o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005(**7**), at ddibenion arfer y pwerau a roddir gan adran 6(11) o'r Ddeddf honno;

(f) yn adran 66(b) o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005, at ddibenion arfer y pwerau a roddir gan adrannau 59(12) a 60(4) a (5) o'r Ddeddf honno;

(**1**) 1978 p.3; mewnosodwyd y diffiniad o "appropriate person" yn adran 11(1) gan adran 14(3) o Ddeddf Cymdogaethau a'r Amgylchedd Glân 2005 (p.16), a mewnosodwyd adran 2A gan adran 10 o Ddeddf 2005.

(**2**) 1989 p.14; mewnosodwyd y diffiniad o "appropriate person" yn adran 9(1) gan adran 39(2) o Ddeddf Cymdogaethau a'r Amgylchedd Glân 2005, a mewnosodwyd adran 5B gan adran 38 o Ddeddf 2005.

(**3**) 1990 p.43; mewnosodwyd adran 29(1A) gan adran 51 o Deddf Cymdogaethau a'r Amgylchedd Glân 2005, mewnosodwyd adran 34A gan adran 45 o Ddeddf 2005, a mewnosodwyd adran 47ZB gan adran 48 o Ddeddf 2005.

(**4**) 1990 p.43; mewnosodwyd adran 98(1A) gan adran 26 o Ddeddf Cymdogaethau a'r Amgylchedd Glân 2005, mewnosodwyd adran 88(11) gan adran 19(6) o Ddeddf 2005, a mewnosodwyd adran 97A gan adran 24 o Ddeddf 2005.

(**5**) 1996 p.37; mewnosodwyd adran 11(2A) gan adran 85(2) o Ddeddf Cymdogaetha Glân a'r Amgylchedd Glân 2005, a mewnosodwyd adran 8A gan adran 82(2) o Ddeddf 2005.

(**6**) 2003 p.38; mewnosodwyd adran 43A gan adran 28(2) o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd Glân 2005, a mewnosodwyd adran 47(4) gan adran 30(2) o Ddeddf 2005.

(**7**) 2005 p.16.

(ff) yn adran 81(1) o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005, at ddibenion arfer y pwerau a roddir gan adrannau 74(4) a (5) o'r Ddeddf honno.

(g) yn adran 98(1)(b) o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005, at ddibenion arfer y pwerau a roddir gan adran 97(1)(a) a (2)(c) o'r Ddeddf honno.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 67(1) o Deddf Cymdogaethau a'r Amgylchedd Glân 2005 a'r pwerau a enwir yn is-baragraffau (a) i (g) o'r paragraff uchod yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tramgwyddau Amgylcheddol (Cosbau Penodedig) (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 15 Mawrth 2007.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Ystodau rhagnodedig o gosbau penodedig

2.—(1) Rhaid i swm cosb benodedig y gellir ei bennu gan—

(a) prif awdurdod sbwriel yng Nghymru o dan adran 88(6A)(a) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**8**);

(b) prif awdurdod sbwriel yng Nghymru o dan baragraff 7(4)(a) o Atodlen 3A i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**9**);

(c) awdurdod lleol perthnasol yng Nghymru o dan adran 43A(1)(a) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003;

(ch) prif awdurdod neu awdurdod eilaidd yng Nghymru o dan adran 60(1)(a) o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 o ran unrhyw orchymyn rheoli cŵn a gafodd ei wneud gan yr awdurdod hwnnw;

(d) awdurdod lleol yng Nghymru o dan adran 74(2)(a) o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd Glân 2005,

beidio â bod yn llai na £75 a dim mwy na £150.

(2) Rhaid i swm cosb benodedig y gellir ei bennu gan—

(a) awdurdod casglu gwastraff yng Nghymru o dan adran 47ZB(2)(a) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990;

(b) prif awdurdod sbwriel yng Nghymru o dan adran 94A(4)(a) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**10**);

(c) awdurdod lleol yng Nghymru o dan adran 8A(2)(a) o Ddeddf Swn 1996;

beidio â bod yn llai na £100 a dim mwy na £150.

(3) Caiff awdurdod sy'n gweithredu o dan fwy nag un o'r darpariaethau a enwir ym mharagraff (1) neu (2) bennu swm gwahanol o dan bob un o'r cyfryw ddarpariaethau.

(**8**) Mewnosodwyd adran 88(6)(A) gan adran 19(2) o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005.
(**9**) Mewnosodwyd Atodlen 3A, ac adran 94B sy'n rhoi effaith iddi, gan adran 23 o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005.
(**10**) 1990 p.43; mewnosodwyd adran 94(A) gan adran 22 o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005.

Symiau llai o gosbau penodedig

3.—(1) Pan fo—

(a) awdurdod sbwriel yng Nghymru sy'n gweithredu o dan adran 88(7) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**11**);

(b) prif awdurdod sbwriel yng Nghymru sy'n gweithredu o dan baragraff 7(5) o Atodlen 3A i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990;

(c) awdurdod lleol yng Nghymru sy'n gweithredu o dan adran 43A(3) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003;

(ch) prif awdurdod neu awdurdod eilaidd yng Nghymru sy'n gweithredu o dan adran 60(3) o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005;

(d) awdurdod lleol yng Nghymru sy'n gweithredu o dan adran 74(3) o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005,

yn gwneud darpariaeth i drin cosb benodedig yn un a gafodd ei thalu os caiff swm llai ei dalu cyn diwedd cyfnod a bennir gan yr awdurdod hwnnw, rhaid i'r swm llai hwnnw beidio â bod yn llai na £50.

(2) Os bydd—

(a) awdurdod casglu gwastraff yng Nghymru sy'n gweithredu o dan adran 47ZB(3) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990;

(b) prif awdurdod sbwriel yng Nghymru sy'n gweithredu o dan adran 94A(5) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990;

(c) awdurdod lleol yng Nghymru sy'n gweithredu o dan adran 8A(3) o Ddeddf Sŵ n 1996;

(ch) awdurdod lleol sy'n gweithredu o dan adran 6(10) o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005,

yn gwneud darpariaeth i drin cosb benodedig yn un a gafodd ei thalu os caiff swm llai ei dalu cyn diwedd cyfnod a bennir gan yr awdurdod hwnnw, rhaid i'r swm llai hwnnw beidio â bod yn llai na £60.

(3) Os bydd awdurdod lleol sy'n gweithredu o dan adran 2A(10) o Ddeddf Gwaredu Sbwriel (Amwynder) 1978(**12**) yn gwneud darpariaeth i drin cosb benodedig yn un a gafodd ei thalu os caiff swm llai ei dalu cyn diwedd cyfnod a bennir gan yr awdurdod hwnnw, rhaid i'r swm llai hwnnw beidio â bod yn llai na £120.

(4) Os bydd—

(a) awdurdod rheoleiddio sy'n gweithredu o dan adran 5B(11) o Ddeddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989(**13**);

(b) awdurdod gorfodi sy'n gweithredu o dan adran 34A(11) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**14**),

yn gwneud darpariaeth i drin cosb benodedig yn un a gafodd ei thalu os caiff swm llai ei dalu cyn diwedd cyfnod a bennir gan yr awdurdod hwnnw, rhaid i'r swm llai hwnnw beidio â bod yn llai na £180.

(**11**) 1990 p.43; mewnosodwyd adran 88(7) gan adran 19(2) o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005..
(**12**) 1978 p.3; mewnosodwyd adran 2(A) gan adran 10 o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (p.16).
(**13**) 1989 p.14; mewnosodwyd adran 5B gan adran 38 o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005.
(**14**) 1990 p.43; mewnosodwyd adran 34A gan adran 45 o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005..